funded by

LLAIS OLDFORD

Rhagfyr/Ionawr 07/08

Lansio 'Cynllun Gweithredu Cymunedol Oldford'

Estynnir gwahoddiad i chi ddod i lansiad 'Cynllun Gweithredu Cymunedol Oldford' yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf Oldford

Dyddiad: 19eg Rhagfyr, 2007

Amser: 11yb

Lleoliad: Neuadd y Dref Y Trallwng

Erbyn hyn, bydd un o swyddogion Cymunedau yn Gyntaf wedi galw heibio bob tŷ. Diben yr ymweliadau hyn yw clywed eich sylwadau chi ar y cynllun gweithredu cymunedol drafft. Mae wedi bod yn hyfryd cwrdd â chymaint ohonoch, a gwrando ar y pethau positif sydd gennych i'w dweud am yr hyn sy'n digwydd ar yr ystâd.

Ffordd wych arall o glywed mwy am y prosiectau cyffrous sydd ar y gweill yw dod i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf Oldford.

Bydd arddangosfeydd cyffrous o ddigwyddiadau llwyddiannus eleni, a dilynir hyn gyda chinio am ddim i ddiolch i bawb am eu cyfraniad.

Dewch i ddysgu mwy am ddigwyddiadau fel hyn!!

Rydym hefyd yn chwilio am aelodau newydd i ymuno â'r Bartneriaeth. Mae hwn yn gyfle gwych i ddweud eich dweud a bod yn rhan o'r gwaith sy'n digwydd ar raglen Cymunedau yn Gyntaf Oldford. Trwy fod yn aelod o'r Bartneriaeth byddech yn cael dod i gyfarfodydd o'r Bartneriaeth sy'n cael eu cynnal bob chwe wythnos a chyfrannu mewn unrhyw ffyrdd posibl eraill i helpu'r Bartneriaeth gyflawni'r nodau sydd yn y Cynllun Gweithredu Cymunedol. Os hoffech fod yn aelod o'r Bartneriaieth, neu os ydych yn adnabod rhywun arall

Yn y rhifyn hwn

CCB Cymunedau yn Gyntaf Oldford	*1*
Digwyddiadau	*2*
Cyngor Ariannol	*3*
Rysait	*4*
Newyddion Ysgol Babanod Oldford	*5*
Gemau Nadolig	*6*

If you would like a large print or Welsh language version of this newsletter, please contact the Communities First Office on 556648

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar

Digwyddiadau

Cymdeithas Gorawl Y Trallwng Cynhelir y cyngherddau traddodiadol ar 2ail a 9fed Rhagfyr Yn Ystafelloedd yr Eglwys Fethodistaidd

Eglwys y Santes Fair—bydd y gwasanaeth Carolau'n cychwyn am 11yb, fore Sul, 23ain Rhagfyr. Cynhelir gwasanaeth Nadoligaidd am 2:30 yp noswyl Nadolig, a'r gwasanaeth Cymun am 11:30 yh

Cwrs Alpha
Cwrs 11 wythnos o hyd yw Alpha sy'n rhoi cyflwyniad i Gristnogaeth. Bydd yn cychwyn am **7.30yh** gyda phryd o fwyd. Am **8.30yh** ceir cyflwyniad ar un o brif agweddau allweddol Cristnogaeth, ac o **9yh** ceir trafodaeth ar y pwnc mewn grŵp llai.

Bydd y cwrs Alpha yn cychwyn dydd Mercher 16eg Ionawr yng Nghanolfan Barnabas, Longden Coleham, Yr Amwythig. Ffoniwch 01743 364101 i gadw lle!

GET GOING GANG

Dewch draw i weld y Get Going Gang yn Ffair Aeaf Y Trallwng ar gyfer **gweithgareddau Nadolig am ddim** i blant o bob oed, ac ar gyfer y Tombola! Gweithgareddau tan 1yp ddydd Sadwrn 1af Rhagfyr.
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch: 555269

Marchnad a Gŵyl Nadolig y Trallwng - Dydd Sadwrn 1af Rhagfyr. Mae'n ymddangos mai hon fydd y flwyddyn orau hyd yn hyn, gyda stondinau ac adloniant ar y stryd ac yn Neuadd y Dref. Bydd **hen geir** ym maes parcio Nat West a **gŵyl fwyd** gydag arddangosfeydd o fwydydd Nadoligaidd a chyfle i flasu! Ymysg y perfformwyr yn **Noson Fawr** yr Ŵyl fydd 'The Dreamers', 'The Cuff Links', Paula May, Shel Macrae a llawer mwy!

Castell Powis bydd y **Groto** ar agor rhwng 1 yp a 3 yp ar: 1af, 2ail, 8fed, 9fed, 15eg a 16eg Rhagfyr.

Rheilffordd Y Trallwng a Llanfair bydd Trenau Siôn Corn yn rhedeg ar ddydd Sadwrn 15fed ac 22ain, ar ddydd Sul 16eg a 23ain Rhagfyr. Bydd pob plentyn yn derbyn anrheg, a bydd digonedd o win cynnes a mins peis yng ngorsaf Llanfair.

Sioe Gymunedol Oldford

2008

Prynhawn Coffi am ddim

Ysgol Babanod Oldford
Dydd Iau 6ed Rhagfyr
2.30 - 3.30yp

Galwch heibio am luniaeth am ddim, a sgwrs ynghylch sut gallwch fod yn rhan o Sioe Gymunedol Oldford 2008.
Ffoniwch : 556648

Potty Potato

Cynllun Bwyd Cydweithredol

Enghreifftiau o'r bagiau ½ maint

Yn cyflwyno...

Bagiau ½ maint o ffrwythau, llysiau a salad yn ogystal â 5cilo/10pwys o datws am ddim ond **£1.50** yr un

Bob dydd Iau
3.15yp~3.45yp Ysgol Oldford
4yp~6yp Swyddfa Clwyd Alyn

Gellir trefnu eu cludo os oes angen. Ffoniwch 556648.

Cynhadledd Cymunedau yn Gyntaf

Cynhaliwyd Cynhadledd Cymunedau yn Gyntaf Powys gyfan ar 8fed Tachwedd ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Bwriad y gynhadledd oedd codi ymwybyddiaeth ymysg mudiadau allanol o waith ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, a sut i fod yn rhan o'r gwaith hwnnw. Agorwyd y gynhadledd gan Mark Kerr, Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys; cafwyd cyflwyniadau gan bobl allweddol sydd eisoes yn ymwneud â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a daeth y diwrnod i ben gyda gweithdai rhyngweithiol gan y tair ardal ym Mhowys: Oldford, Ystradgynlais a Bro Ddyfi.
Os hoffech gael mwy o wybodaeth, ffoniwch 556648.

Newyddion yr Undeb Credyd

Ydy hi'n costio ffortiwn i wresogi'ch tŷ chi?

Efallai eich bod yn talu gormod am yr ynni rydych yn ei ddefnyddio. Trwy dreulio hanner awr gyda'n **Ymgynghorydd Effeithlonrwydd Ynni** gallwch arbed dipyn o arian dros y gaeaf sydd i ddod.

Pam na wnewch chi alw i weld Gill Williams, ein Ymgynghorydd Effeithlonrwydd Ynni yn Swyddfa Clwyd Alyn ar ddydd lau cyntaf bob mis rhwng 1yp a 3yp. Bydd yn ymweliad â ni nesaf ar 6ed Rhagfyr.

Cyngor ar Effeithlonrwydd Ynni yw'r gwasanaeth diweddaraf sydd ar gael gan yr undeb credyd ar gyfer ein haelodau. Dewch i'n gweld yn swyddfa Clwyd Alyn — rydym yno bob dydd lau rhwng 4 a 6yh.
Ffoniwch **01686 632741** os oes angen apwyntiad cyfrinachol tu allan i'r oriau hyn.

Undeb Credyd Sir Drefaldwyn
Robert Owen
Montgomeryshire Credit Union

LLINELL GYMORTH AR FUDD-DALIADAU PLANT 0845 302 1444

CTO Noson Bingo

2ail Tachwedd

Codwyd £98.50 ar y noson, fydd yn mynd tuag at helpu'r gymuned.

LLONGYFARCHIADAU

I bawb oedd ar y Cwrs Hylendid Bwyd Lefel 2 ar 31ain Hydref.

Llwyddodd pawb i basio!!!

Diolch i Gwmni Hyfforddiant Cambrian.

Thinking money

Syniadau ar gadw allan o ddyled adeg y Nadolig

BYDDWCH YN REALISTIG AM YR HYN GALLWCH EI FFORDDIO.

- Gallwch ystyried gynilo ar gyfer y Nadolig trwy gydol y flwyddyn—ffoniwch CAB Powys am opsiynau ar 0845 6018421
- Gweithiwch allan faint i wario ar bob unigolyn - a chadw at hynny. Gallwch geisio fynd i siopa gydag arian parod yn unig yn hytrach na defnyddio'ch cardiau credyd.
- Peidiwch â mynd i orddrafft heb siarad gyda'r banc - bydd hyn yn costio llawer mwy nag y byddai trwy drefnu ymlaen llaw.
- Os oes angen defnyddio credyd, dylech siopa o gwmpas i gael y gyfradd isaf.
- Gofalwch eich bod yn talu pethau sy'n flaenoriaeth dros y Nadolig megis morgais/rhent, nwy, trydan a Threth Cyngor. Gwiriwch fod eich cyllideb yn barod ar gyfer biliau mwy fydd yn dod yn y Flwyddyn Newydd.

Os byddwch yn mynd i drafferth, mynnwch gyngor gan y CAB lleol cyn gynted â phosib.

FFONIWCH NI OS OES GENNYCH BROBLEM, NEU OS HOFFECH WIRFODDOLI

Cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd am ddim

CAB Powys 0845 6018421

Mawrth — Gwener 10yb – 2.30yp

Ceir gwybodaeth ar-lein ar:
www.adviceguide.org.uk

Rysáit Nadolig…..

Peli Pwdin Nadolig….

Mae'r rysáit hon mor hawdd—ar ôl cael yr holl gynhwysion at ei gilydd, gallwch adael i'r plant cymysgu a rholi'r peli — ac maent yn anrheg delfrydol hefyd!

Cynhwysion:

- 175g/6owns briwsion bisgedi 'digestive'
- 50g/2owns rhesins wedi'u torri
- 50g/2owns cnau cyll wedi'u rhostio a'u torri
- 50g/2owns almonau mâl
- 75g/3owns o jam cyrens duon
- 1 oren, croen yn unig, wedi'i dorri'n fân
- Rym tywyll neu Frandi (opsiynol)
- 150g/5wns o siocled tywyll
-

Dull

1. Cymysgwch y briwsion , rhesins, cnau, jam a chroen oren gyda'i gilydd mewn bowlen.
2. Ychwanegwch ddigon o Rym neu Frandi (defnyddiwch ddŵr pe dymunir) nes bo'r cymysgedd yn weddol drwchus.
3. Siapiwch y cymysgedd yn beli bach, maint cneuen Ffrengig.
4. Toddwch y siocled mewn bowlen dros sospan o ddŵr berwedig, rhowch bob pelen yn y siocled i'w gaenu, a'u rhoi ar fwrdd wedi'i orchuddio â ffoil i galedu.
5. Gellir defnyddio marsipán neu geirios glacé i addurno.

Tanat Valley Coaches

Clothes Show Live yn yr NEC
Dydd Sadwrn 8fed Rhagfyr
Cinio Nadolig yn Nhref Blists Hill
Dydd Sadwrn 22ain Rhagfyr
Pantomeim ~ Aladdin
Dydd Sadwrn 26ain Ionawr 2008

Gweler ein rhestr o deithiau gwyliau yn y Llyfryn newydd i'w gyhoeddi ym mis Chwefror 2008.

Ffoniwch ni nawr ar 01691 780212 nawr i archebu lle, am brisiau ac Amserlenni.

Cymdeithas Tenantiaid Oldford

Sêl Pen-bwrdd a Bore Coffi
Dydd Llun 3ydd Rhagfyr 9.30yb ~ 12yp

Pris bob bwrdd yw £5 yr un.
Ffoniwch Sian ar 554181 neu Liz ar 555269

Noson Bingo'r Nadolig

Dydd Sul 16eg Rhagfyr
Drysau'n agor am 6.30yh
Cychwyn am 7yh
Raffl a lluniaeth

'Oldford Force Team' Clwb Datgelu Metel

Yn cwrdd dydd Sul cyntaf bob mis tu allan i swyddfa Clwyd Alyn.
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Hazel Hicks ar 07871985452

Fy Hoff Ganeuon

CD gyda 10 cân, a gynhyrchwyd gan Richard Zimbler sy'n cynnwys fo ei hunan yn canu nifer o ganeuon jazz, pop a roc.

Dim ond £6.00 y CD a bydd yr holl arian yn mynd i Gymdeithas LMBBS.

Cymdeithas Laurence-Moon-Bardet-Biedl yw'r unig elusen gofrestredig sy'n cynorthwyo pobl sy'n di-oddef o Syndrom Laurence-Moon-Bardet-Biedl, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae Siôn Corn ar goll! Galli di ei helpu i fynd yn ôl i Begwn y Gogledd?



Newyddion Ysgol Babanod Oldford …

Gwyliau'r Nadolig….

Gwyliau Ysgol o 21ain Rhagfyr tan 8fed Ionawr

Ail-lansio'r Wefan...

Ail-lansiwyd gwefan Cymunedau yn Gyntaf Powys yng Nghynhadledd Cymunedau yn Gyntaf Powys ar 8fed Tachwedd yn Llanelwedd.

Beth am gymryd cip ar y wefan a **gweld sut gallwch chi gyfrannu**, mae nifer o adrannau gwahanol lle gall pobl o bob oed rannu eu sylwadau a'u hanesion. Mae adran i '**Bbl Ifanc**' 11 i 25 mlwydd oed, a'r '**Boing Zone**' i blant iau! Neu ewch ar-lein i ddysgu mwy am yr hyn sy'n digwydd ar Oldford, neu drwy ddarllen Llais Oldford, neu edrych ar luniau o ddigwyddiadau'r gorffennol, i ddarllen ein newyddion a llawer mwy!

Rydym yn wirioneddol am gael eich cymorth i sicrhau fod y wefan hon yn llwyddiant, felly e-bostiwch, ffoniwch neu bostiwch eich awgrymiadau, ac unrhyw beth yr hoffech weld ar y wefan!

www.commfirstpowys.org.uk

Cyhoeddiadau....

Pen-blwydd Hapus Sheila

Ar gyfer 27ain Ionawr

Pen-blwydd Hapus Jake

14eg Rhagfyr
Cariad oddi wrth Wncl Benji a Claire
xxx

Pen-blwydd Hapus yn 50 oed Liz!
Ar 14eg Ionawr
Cariad oddi wrth Dave, Carl, Jayne, Sarah, Sharon, Laura a'r wyrion ac wyresau
xxx

Mae Noddy bach yn 18 Oed ar 4ydd Ionawr
Pen-blwydd hapus Carl
Cariad oddi wrth Mam, Dad, Jayne, Sharon, Sarah, Laura a'r nithoedd a neiaint i gyd
xxx

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan dîm Cymunedau'n Gyntaf Oldford

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda gan dîm Potty Potato

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda gan Gymdeithas Tenantiaid Oldford

Nadolig Llawen a dymuniadau gorau am y flwyddyn newydd gan y Get Going Gang!